

## Pleidleiswyr drwy'r post

- Y dyddiad cau i wneud cais am bleidlais drwy'r post yw – 5.00pm ddydd Mawrth 20 Ebrill
- Mae'n rhaid i'r sawl sy'n gwneud cais am bleidlais drwy'r post fod eisoes wedi cofrestru i bleidleisio. Gellir lawrlwytho ffurflenni o [wefan Gov.UK](https://www.gov.uk) neu 01495 355086/88.
- Dim ond pleidleisiau drwy'r post sy'n cael eu dychwelyd cyn 10.00pm ar ddiwrnod yr etholiad fydd yn cael eu cyfrif.
- Wedi anghofio anfon eich pleidlais bost yn ôl mewn pryd? Wedi i chi gwblhau eich pleidleisiau post a selio'r pecyn, gallwch eu gadael ar y diwrnod pleidleisio mewn unrhyw orsaf bleidleisio sydd yn yr un ardal bleidleisio, ond yn ddelfrydol yn eich gorsaf bostio leol.

Wedi colli eich pleidlais bost neu'r bleidlais heb gyrraedd? Gellir darparu pecynnau yn eu lle rhwng dydd Iau 29 Ebrill a 5.00pm ar 6 Mai 2021. O 5.00pm ar 5 Mai 2021, dim ond wyneb yn wyneb yn y Swyddfeydd Cyffredinol, Heol Gwaith Dur, Glynebwy NP23 6DN y rhoddir pecynnau yn lle rhai a gollwyd neu na gyrhaeddodd.

- Ffoniwch o flaen llaw os oes angen pecyn pleidlais bost n lle un sydd wedi'i golli neu heb gyrraedd
- Bydd angen i chi ddod â thystiolaeth o bwy ydych: un ddogfen adnabod gyda llun tebyg i basbort neu drwydded yrru, neu ddwy ddogfen sy'n cadarnhau eich enw a'ch cyfeiriad megis cyfriflen banc, bil cyfleustod neu lythyr swyddogol.